



## Medalau Cymdeithas Ddysgedig Cymru – Canllawiau Enwebu 2019-20

### Rheolau a gweithdrefnau enwebu

1. Er mwyn i enwebiad fod yn ddilys, rhaid i'r Gymdeithas dderbyn y dogfennau canlynol erbyn **5.00pm ar 1 Mawrth 2019**:
  - Ffurflen enwebu wedi'i chwblhau – gallwch ei lawrlwytho o [www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau)
  - CV yr enwebai (heb fod yn hirach na 2 dudalen; gall CV hirach anghymhwyso enwebiad)
  - *Medalau Frances Hoggan, Menelaus a Hugh Owen*: rhestr o gyhoeddiadau'r enwebai (heb fod yn hirach na 2 dudalen)
  - *Medalau Dillwyn*: Ffurflenni Geirda Cyfrinachol i'w cwblhau gan yr Ail a'r Trydydd Cynigydd (gofynnwch iddyn nhw anfon y ffurflen atom yn uniongyrchol; mae ar y wefan: [www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau))
2. Dylid ebostio'r holl ddogfennau i [nominations@lsw.wales.ac.uk](mailto:nominations@lsw.wales.ac.uk). Peidiwch â defnyddio unrhyw gyfeiriad ebost arall. Os nad ydych yn arfer defnyddio ebost, gallwch bostio'r dogfennau i: Fiona Gaskell, Cynorthwydd y Gymrodoriaeth, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3NS
3. Rhaid cael tri unigolyn i gynnig pob enwebiad, gyda'u henwau a'u llofnod ar y ffurflen enwebu.
4. Cyfrifoldeb y Prif Gynigydd yw darparu digon o wybodaeth ar y ffurflen i bwyllgor y fedal allu dod i farn resymedig ar yr enwebai.
5. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni anghyflawn.
6. Rhaid i'r Prif Gynigydd hysbysu'r enwebai am yr enwebiad (ar wahân i Fedalau Dillwyn, lle gofynnwn ni chi gadw hyn yn gyfrinachol). Fel arall, rhaid i'r Cynigwyr beidio â hysbysu neb am yr enwebiad.
7. Byddwn yn ystyried enwebiadau am hyd at dair blynedd, ac yn gofyn am wybodaeth wedi'i diweddarau gan y Prif Gynigydd bob blwyddyn. (Nodwch y bydd enwebeion am Fedalau Dillwyn yn anghymwys os byddant yn cronni dros 10 mlynedd o brofiad gwaith ar ôl i'w henwebiad gael ei ystyried am y tro cyntaf.)
8. Caiff y canlynol eu heithrio rhag cyflwyno enwebiadau:
  - Aelodau o Bwyllgor y Fedal a fydd yn ystyried yr enwebiad (ceir pwyllgor gwahanol i bob medal)
  - Sefydliadau, cyrff a chwmnïau
9. Caiff y canlynol eu heithrio rhag cael eu henwebu:
  - Aelodau o Bwyllgor y Fedal a fydd yn ystyried yr enwebiad
  - Sefydliadau, cyrff a chwmnïau
  - Aelodau o Gyngor y Gymdeithas
10. Gwnewch yn siŵr fod enwebeion yn ymwybodol o'r canlynol:
  - Bydd Llywydd y Gymdeithas yn dyfarnu'r Medalau mewn seremoni arbennig ar ddiwrnod Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Gymdeithas (20 Mai 2020).

- Disgwylir i enillwyr y Medalau wneud cyfraniad i'r Gymdeithas yn y flwyddyn yn dilyn eu dyfarniad. Gall hyn fod yn ddarlith, gweithdy neu weithgaredd arall sy'n ymgysylltu â chynulleidfa nad ydynt yn arbenigwyr. Bydd y Gymdeithas yn talu unrhyw dreuliau'n gysylltiedig â'r cyfraniad hwn.

11. Fel arfer byddwn yn dyfarnu un fedal y flwyddyn ym mhob categori. Fodd bynnag os yw Pwyllgor unrhyw Fedal yn pennu nad oes neb yn bodloni'r safon briodol o ragoriaeth, ni chaiff medal ei dyfarnu yn y categori hwnnw.

## Canllawiau ar gyfer cwblhau Ffurflen Enwebu

### **Ar gyfer pa Fedal ydych chi'n enwebu?**

Gwiriwch y blwch priodol.

### **Manylion yr Enwebai**

Gwnewch yn siŵr fod pob adran wedi'i chwblhau.

### **Datganiad o Gefnogaeth**

Defnyddiwch y cyfle hwn i nodi'n glir pam fod eich enwebai'n deilwng o'r fedal. Gall eich datganiad (uchafswm 500 gair) gynnwys y canlynol:

- Tystiolaeth o ragoriaeth yr enwebai – e.e. gwahoddiadau i gyflwyno darlithoedd a phapurau i gynadleddau a chyrff proffesiynol; pwyllgorau neu ymchwiliadau pwysig mae'r ymgeisydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu arnynt; anrhydeddau, medalau, gwobrau mae'r enwebai wedi'u derbyn
- Statws yr enwebai yn y ddisgyblaeth – e.e. cyhoeddiadau arloesol diweddar, ymchwil blaengar, arweinyddiaeth academaidd
- Cyfraniad ac ymgysylltu gan yr enwebai â chymdeithas yn ehangach – e.e. lledaenu ymchwil ac ysgolheictod yn hygyrch, masnacholi, cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd/cymunedau

Oherwydd y bydd enwebeion am Fedal Dillwyn ar gyfnod cynharach yn eu gyrfa, efallai na fydd rhai o'r uchod yn berthnasol. Os felly amlinellwch gryfderau cefndir academaidd yr enwebai a rhagolygon gyrfa yn y dyfodol (a yw'n seren esgynnol?).

### **Cyfraniad i'r Gymdeithas**

Gofynnwn i enillwyr Medalau wneud cyfraniad i'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyfarniad.

Gofynnwch i'ch enwebai pa fath o gyfraniad(au) y byddai'n barod i'w gwneud a nodwch fanylion yma. Gallai'r mathau o gyfraniad gynnwys:

- Darlith gyhoeddus
- Gweithdy mewn ysgol
- Cefnogaeth i Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar
- Ymwneud â'n gwaith ar Astudiaethau Cymreig
- Ysgrifennu erthygl

### **Prif Gynigydd / Ail Gynigydd / Trydydd Cynigydd**

Mae angen tri chynigydd ar bob enwebiad. Cwblhewch eu manylion, gan osod llofnodion wedi'u sganio ar y ffurflen os yw'n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid anfon copi caled wedi'i lofnodi i swyddfa'r Gymdeithas.

Ar gyfer enwebiadau Medal Dillwyn, nodwch fod rhaid i'r Ail a'r Trydydd Cynigydd hefyd gwblhau'r Ffurflen Geirda Gyfrinachol. Mae hon yn ffurflen ar wahân: [www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru/gwobrau). Gofynnwch i'r Ail a'r Trydydd Cynigydd anfon y ffurflenni hyn yn uniongyrchol i [nominations@lsw.wales.ac.uk](mailto:nominations@lsw.wales.ac.uk)